Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD
**HEDDLU A THROSEDDU**
DYFED-POWYS
**POLICE AND CRIME**
COMMISSIONER

**ADRODDIAD / TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**DIBEN: PENDERFYNIAD Y COMISIYNYDD – CYF. DLI 125**

**Amseru: Arferol**

**Teitl: Cyfraniad tuag at adroddiad strategaeth carbon positif Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys.**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid/y Gronfa Cynaliadwyedd a Thrawsnewid.**

**Crynodeb Gweithredol:** Cam 7 Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys, "Tuag at 2040", yw "Datblygu strategaeth carbon positif sy'n uchafu potensial ynni gwyrdd." Nodwyd tendr er mwyn caffael ymgynghorydd sy'n medru adnabod strategaeth addas ar gyfer cyflawni'r amcan hwn. Bydd canlyniadau'n cael eu crynhoi mewn adroddiad i'w gyflwyno i randdeiliaid ym mis Rhagfyr 2019. Gofynnwyd i randdeiliaid allweddol am gyfraniad tuag at gaffael yr ymgynghorydd hwn. Seiliwyd cyfraniadau ar faint y sefydliad, felly gofynnwyd i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys gyfrannu £1500.

**Argymhelliad:**
Gofynnir i'r Comisiynydd gymeradwyo'r cyfraniad ar gyfer yr adroddiad hwn, fel y crynhoir uchod, gan ddefnyddio arian o'r Gronfa Cynaliadwyedd a Thrawsnewid.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod / ~~Nid wyf yn cymeradwyo'r cais uchod~~ / Rwy'n nodi'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys o fewn yr adroddiad (dileer fel y bo'n briodol)

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 10/07/2019